**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2025 ar Zoom**

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Julia Hughes (Cadeirydd) | JH | Aelod Annibynnol |
| Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd) | SE | Aelod Annibynnol |
| Gill Murgatroyd | GM | Aelod Annibynnol |
| Cyng John Brynmor Hughes | JBM | Cyngor Gwynedd (gadawodd am 11:45) |
| Cyng Ian Hodge | IH | Cyngor Sir y Fflint |
| | | |
| Matthew Powell | MP | Dirprwy Glerc |
| Lisa Allington | LJA | Cynorthwyydd Gweithredol/Cyswllt Aelodau |
| Ffion Evans | FE | Cynorthwyydd Gweithredol |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Pritchard | GP | Aelod Annibynnol |

**Yn Absennol**

---

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

1 **YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer Gareth Pritchard. Croesawyd Ffion Evans i'r cyfarfod fel arsylwr er mwyn iddi allu darparu gwydnwch pe na bai'r cyswllt Gwasanaethau Aelodau penodol ar gael ar gyfer cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

2.2 Nododd aelodau o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn aelodau o bwyllgor safonau Cyngor Sir y Fflint fod y diweddariadau Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn cynnwys cyfeiriad at ganfyddiadau sy'n ymwneud â'r pwyllgor safonau eraill. Nodwyd hyn ond roedd y Dirprwy Glerc o'r farn mai adroddiadau darparu gwybodaeth yw'r ac mai eu pwrpas yw i'r aelodau nodi tueddiadau a negeseuon ac nad ydynt yn gysylltiedig nac yn effeithio ar swyddogaethau pwyllgor safonau Cyngor Sir y Fflint, sy'n golygu nad oes gofyniad i ddatgan buddiant. Os trafodir achosion unigol yn benodol, efallai y bydd angen datgan buddiant.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

4.1 Adolygwyd cofnodion 27 Mawrth 2025 a nodwyd bod y cyfeiriad ym mharagraff 2.1 bod Gill Murgatroyd yn aelod o Bwyllgor Cynllunio Sir y Fflint yn anghywir a dylai fod '… yn aelod o Bwyllgor Safonau Sir y Fflint.'

4.2 Yn ogystal, nododd paragraff 4.1 fod cyfarfod wedi'i gynnal ar 2 Hydref 2025, ac eglurwyd y dylai hyn fod yn 2 Hydref 2024. O ganlyniad, dylai'r cyfeiriad at y cyfarfod eithriadol ar 5 Ebrill yn yr ail bwynt bwled o dan y paragraff hwnnw hefyd fod yn 2024, nid 2025.

4.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r cofnodion o gyfarfod 27 Mawrth 2025, gyda'r cywiriadau uchod.**

## 5 MATERION YN CODI

5.1 Cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraff 2.2 o'r cofnodion lle roedd Sally Ellis wedi holi a ddylai ddatgan buddiant personol gan ei bod yn aelod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Sir y Fflint. Roedd y Dirprwy Glerc wedi cytuno i ymchwilio i'r gofyniad hwn ymhellach ac adrodd yn ôl i'r aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

5.2 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr adborth hwn wedi'i roi a chadarnhaodd y Dirprwy Glerc nad oedd wedi gwneud hynny a chadarnhaodd y byddai'n rhoi canllawiau ysgrifenedig mewn perthynas â datganiadau o fuddiant i aelodau sy'n eistedd ar bwyllgorau eraill er mwyn eglurder.

5.3 Nodwyd ymhellach nad oedd Sally Ellis bellach yn aelod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Sir y Fflint.

5.4 Cadarnhawyd bod y Polisi Rhoddion a Lletygarwch bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

## 6 ADRODDIAD LLAFAR Y CADEIRYDD AR FFORWM CADEIRYDDION PWYLLGORAU SAFONAU CENEDLAETHOL – CYMRU

6.1 Rhoddodd y Cadeirydd adborth llafar ar gyfarfod Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2025.

6.2 Cynhaliwyd y cyfarfod ddydd Llun 23 Mehefin 2025 ac roedd wedi bod yn ddefnyddiol ac yn adeiladol. Ymhlith yr eitemau a drafodwyd oedd ymgysylltu yn y dyfodol â Llywodraeth leol ac Adran Bolisi Llywodraeth Cymru, gyda rhai Cadeiryddion yn cadarnhau eu bod yn barod i gymryd rhan mewn sesiynau ymgynghori ac adborth.

6.3 Cynhaliwyd trafodaeth ar gydnabyddiaeth ariannol a nodwyd bod newidiadau wedi bod yn y cyfrifoldebau dros gydnabyddiaeth ariannol a oedd bellach wedi'u adleoli o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) a oedd wedi'i ddiddymu a'i symud i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC).

6.4 Cafwyd adborth gan Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Roedd trafodaeth wedi'i chynnal ynghylch cwynion a wnaed yn erbyn aelodau staff a'r adborth a gafwyd. Roedd adborth hefyd wedi'i dderbyn ar lwyth achosion, cwynion ymddygiad, a'r prif bwnc yn ymwneud â chyhuddiadau o ddiffyg cydraddoldeb a pharch. Roedd pedwar deg naw o achosion wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd pymtheg ohonynt wedi cael eu cyfeirio. Roedd cyfanswm o 85% o doriadau wedi'u cadarnhau, dangosydd cadarnhaol iddyn nhw a'u gwaith ymchwilio.

6.5 Dywedodd OGCC ei bod wedi cynnal adolygiad o'r Protocol Datrys Problemau, yn fwy penodol y geiriad a'r camau ynddo a allai achosi cymhlethdodau wrth gyfeirio materion at yr OGCC. Roedd y Protocolau Datrys Lleol (LRPs) hefyd yn cael eu hadolygu, a nodwyd bod Protocolau Datrys Lleol yr Awdurdod ar yr agenda i'w drafod yn y cyfarfod hwn.

6.6 Bu trafodaethau a sylwadau gan Gadeirydd y fforwm mewn perthynas â'r pryder a fynegwyd yn aml ynghylch yr amser a gymerodd i rai achosion gael eu hystyried. Gallai hyn fod yn broses llawn straen ar gyfer gwrthrych y gŵyn a'r achwynydd a phan fod achosion yn cymryd gymaint o amser i'w hystyried roedd yn ychwanegu at y lefelau straen. Mae'r OGCC yn cydnabod hyn a chadarnhaodd ei bod yn gobeithio lleihau nifer yr achosion sy'n cymryd mwy na blwyddyn i'w datrys. Fodd bynnag, pan oedd achosion a oedd angen cyfranogiad yr heddlu yn cael eu clywed, roedd yn rhaid gohirio'r rhain nes bod materion cyfreithiol wedi'u cwblhau.

6.7 Ymhlith materion eraill a godwyd gan Gadeiryddion yn y fforwm oedd sut y gwnaeth gwahanol bwyllgorau ymgymryd â goddefebau a'r dulliau unigol ledled Cymru ac a oedd unrhyw ganllawiau ysgrifenedig ar hyn i aelodau. Roedd hon wedi bod yn drafodaeth ddiddorol a allai godi mewn cyfarfodydd pwyllgorau safonau eraill.

6.8 Archwiliwyd a thrafodwyd achosion diweddar o ddiddordeb o Banel Dyfarnu Cymru (PDC) yn fanwl. Roedd eitem ddiddorol hefyd wedi bod ar gadeirio cyfarfodydd a'r anawsterau a allai godi wrth gynnal gwrandawiadau ar gyfer gwahanol bwyllgorau safonau.

6.10 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2026.

6.11 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys y diweddariad llafar a roddwyd.**

7 **TROSOLWG LLAFAR Y CADEIRYDDION O'R PYNCIAU A DRAFODWYD YN Y CYFARFOD CYSWLLT MOESEGOL GYDA CHADEIRYDDION/IS-GADEIRYDDION**

7.1 Rhoddodd y Cadeirydd adborth lefel uchel ar y pynciau a drafodwyd yn y cyfarfod cyswllt moesegol a gynhaliwyd gyda Chadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod/Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r cyfarfod Cyswllt Moesegol hwn yn cyfarfod yn flynyddol. Cynhaliwyd y cyfarfod ar 25 Medi 2025.

7.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys y diweddariad llafar a roddwyd.**

8 **TELERAU PENODI AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU**

8.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y papur mewn perthynas â thelerau penodi aelodau'r Pwyllgor a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar benodiadau presennol y Pwyllgor a thelerau swydd yr Aelodau.

8.2 Adroddwyd bod cyfnodau swydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2025 a byddai proses recriwtio yn cychwyn er mwyn llenwi eu lle gyda'r bwriad o wneud penodiadau cyn cyfarfod llawn nesaf yr Awdurdod ym mis Ionawr 2026 fel y gellid eu cadarnhau yn y cyfarfod hwnnw.

8.3 Nodwyd mai’r Aelodau Annibynnol a benodwyd y byddai eu cyfnod yn dod i ben oedd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd presennol y Pwyllgor, ac felly byddai angen cynnal proses i enwebu a phenodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.

8.4 Nododd Aelod y byddai hyn yn golygu mai dyma fyddai cyfarfod olaf Julia Hughes a Sally Ellis a gofynnodd am gofnodi diolch am gyfraniad sylweddol a gwerthfawr y ddwy ohonynt.

8.5 Dywedodd un o'r ddau aelod annibynnol sydd ar ôl, er ei bod yn ymddangos yn rhesymegol eu bod yn camu i mewn fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd, bod eu cyfnodau hwythau hefyd i ddod i ben ym mis Awst 2027 ac felly gallai wneud synnwyr i o leiaf un o'r aelodau newydd gael eu henwebu i un o'r rolau hynny at ddibenion cynllunio olyniaeth.

8.6 Gofynnodd y Cadeirydd am gofnodi bod rhywfaint o ddryswch wedi bod ynghylch dyddiadau gorffen eu cyfnodau ac felly nad oedd cynllunio olyniaeth wedi bod mor llyfn ag y gallai fod wedi bod.

8.7 Gofynnwyd a ellid ymestyn cyfnodau Julia Hughes a Sally Ellis i gyfnodau o chwe blynedd, a chadarnhaodd y Dirprwy Glerc na allent gan fod y penderfyniad ynghylch hyd y cyfnod penodiad wedi'i benderfynu gan yr Awdurdod a dyma'r ail gyfnod ac olaf ac felly na ellid ei ymestyn.

8.8 Holwyd a oedd unrhyw le i leihau costau recriwtio drwy ystyried dulliau hysbysebu amgen, fel y cyfryngau cymdeithasol. Cynghorodd y Dirprwy Glerc ei bod yn ofyniad cyfreithiol i hysbysebu am Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau mewn dau bapur newydd lleol, felly na ellir osgoi'r costau hynny. Deallwyd mai'r gost y cyfeirir ati yn yr adroddiad oedd cost y broses recriwtio ddiwethaf.

8.9 Nodwyd y dylai'r flwyddyn y cyfeirir ati yn adran Goblygiadau'r adroddiad mewn perthynas â'r gyllideb gyfeirio at 2025/26, nid 2024/25.

8.10 Gan nad oedd Gareth Pritchard yn bresennol yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Dirprwy Glerc i gysylltu ag ef a'i friffio ar yr eitem hon er mwyn iddo fod yn ymwybodol ohoni.

8.11 Gofynnodd Aelod a allai'r broses recriwtio hon gael ei heffeithio gan yr adolygiad presennol o lywodraethiant ac unrhyw newidiadau posibl i drefniadau llywodraethu a allai godi o ganlyniad. Cynghorodd y Dirprwy Glerc fod yn rhaid i'r Awdurdod weithio o fewn y fframwaith presennol a'i fod yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i'r Awdurdod gael Pwyllgor Safonau ac felly, ei bod yn angenrheidiol i'r recriwtio ddigwydd.

8.12 Cynghorodd y Dirprwy Glerc y byddai'n debygol y byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau i lywodraethiant a fyddai’n deillio o'r ymgynghoriad fod trwy ddeddfwriaeth sylfaenol trwy'r Senedd a fyddai'n cymryd amser. Dim ond newydd ddod i ben oedd yr ymgynghoriad, ac nid oedd y canlyniadau wedi'u rhyddhau eto ac felly roedd yn dal i fod yn anodd gwneud sylwadau ar amserlenni, er na theimlai fod hynny ar fin digwydd.

8.13 Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau am eu cyfraniadau gwerthfawr dros ei chyfnod yn y swydd.

8.14 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

9 **ADOLYGIAD TREIGL O'R WEITHDREFN DATRYS YN LLEOL (LRP) AR GYFER CWYNION AM YMDDYGIAD**

9.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr adolygiad treigl o'r weithdrefn datrys yn lleol (LRP) ar gyfer cwynion am ymddygiad.

9.2 Nodwyd fod y Pwyllgor wedi adolygu Gweithdrefn Datrys yn Lleol (LRP) yr Awdurdod ddiwethaf yn 2019, ac mai hon oedd un o'r protocolau a adolygir gan y Pwyllgor ar sail dreigl ym mhob tymor o'r Awdurdod.

9.3 Crynhodd y Dirprwy Glerc yr argymhellion a dywedodd, ar ôl adolygu'r protocol, nad oedd yn gallu dod o hyd i'r "Safon Awdurdod Tân" y cyfeirir ati yn y LRP a fyddai'n cynnwys rhestr o ymddygiadau, felly maent wedi'u cofnodi a'u cynnwys yn yr LRP ei hun a oedd hefyd yn unol â'r argymhellion.

9.4 Nododd y Cadeirydd mai'r rheswm y cofnodwyd bod trydydd cam y LRP i'w ddileu oedd am ei fod yn achosi dryswch ynglŷn â ble mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd am wneud rhai penderfyniadau. Mae hyn yn gymhleth ond teimlir bod angen diweddaru'r broses bresennol er mwyn cael gwared ar y mater hwn.

9.5 Roedd cwestiwn gan Aelod ynglŷn â'r cynnig i ganiatáu i swyddogion ddefnyddio'r LRP, a sut mae hyn yn integreiddio â gweithdrefnau AD mewnol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Cynghorodd y Dirprwy Glerc fod y protocol eisoes yn caniatáu i swyddogion ei ddefnyddio ac mae'n dweud y dylai swyddogion sy'n dymuno gwneud cwyn ymgynghori â'u Rheolwr Llinell yn gyntaf a fyddai'n gallu cynghori os oes unrhyw broses arall ar gael.

9.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) Argymell bod yr Awdurdod yn derbyn y diwygiadau arfaethedig a mabwysiadu'r LRP diwygiedig.**

10 **ADOLYGIAD TREIGL O'R PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

10.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr adolygiad treigl o'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

10.2 Awgrymodd aelod fod y darpariaethau cyfryngau cymdeithasol presennol yn ddigonol ond awgrymodd eu hailenwi'n 'Protocol Cyfryngau Cymdeithasol o fewn Cyfarfodydd', gyda dolen ychwanegol at ganllawiau CLlLC.

10.3 Nododd y Cadeirydd, ar ôl adolygu protocol cynhwysfawr Powys, ei bod yn debygol nad oedd angen i'r Awdurdod fabwysiadu rhywbeth mor fanwl. Cytunodd y Cadeirydd â sylwadau'r Aelodau ac ystyriodd fod y protocol presennol yn ddigonol, yn amodol ar gynnwys dolen i ganllawiau CLlLC.

10.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol i gynnwys dolen i ganllawiau cyfryngau cymdeithasol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer cynghorwyr;**

11 **OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU "Ein Canfyddiadau"**

11.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y papur ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru "Ein Canfyddiadau" i weld a oedd unrhyw negeseuon a fyddai'n ddefnyddiol i'w rhannu gydag aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

11.2 Roedd yr aelodau o'r farn y dylid darparu'r data hwn yn flynyddol, yn hytrach na dwywaith y flwyddyn, ac oherwydd bod y data yn yr adroddiad hwn yn dyblygu Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ryw raddau, roedd yr aelodau o'r farn na ddylid adrodd ar yr adroddiad "Ein Canfyddiadau" yn yr un cyfarfod.

11.3 Nododd y Dirprwy Glerc nad oedd y cwynion yn ymwneud ag unrhyw awdurdodau tân, gan gynnwys yr Awdurdod hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r canfyddiadau yn ymwneud â pharch ac ystyriaethau ond nododd gynnydd mewn cwynion ynghylch datganiadau o fuddiant.

11.4 Gofynnodd yr Aelodau i'r Dirprwy Glerc gysylltu â'r OGCC i gael y data cyfredol ac i rannu hon gyda Chadeirydd yr Awdurdod Tân.

11.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) Adolygu'r canfyddiadau a'r data i nodi unrhyw dueddiadau neu negeseuon defnyddiol y gellid eu cyfathrebu i aelodau'r Awdurdod ar wahân i wybodaeth i'w rhannu gyda'r Cadeirydd;**

ii) **Ystyriodd y Pwyllgor a ddylid parhau i ddarparu'r wybodaeth hon ddwywaith y flwyddyn neu'n flynyddol a phenderfynodd y dylid ei darparu'n flynyddol.**

12 **ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETH CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) AR GYFER Y FLWYDDYN 2024 / 2025**

12.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr adroddiad i'r Aelodau ar gynnwys Adroddiad Blynyddol OGCC ar gyfer 2024–2025, sy'n derbyn cwynion ynghylch cynghorwyr mewn cynghorau lleol, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Nodwyd bod yr OGCC yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n cwmpasu ei holl gyfrifoldebau, gan gynnwys cwynion.

12.2 Nodwyd bod nifer y cwynion wedi gostwng ychydig eleni, ar ôl cynyddu dros y pedair blynedd flaenorol. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r mwyafrif o gwynion yn ymwneud â methu â dangos parch a bod yn ystyriol o eraill. Cyfeiriwyd cyfanswm o bymtheg o gwynion at Banel Dyfarnu Cymru neu bwyllgorau safonau lleol ar gyfer gwrandawiadau dros y cyfnod. Nid oedd unrhyw gwynion yn ymwneud ag ymddygiad aelodau o fewn awdurdodau tân.

12.3 **PENDERFYNWYD:**

i) **Ystyried y materion sy'n ymwneud â Chwynion Cod Ymddygiad a adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol OGCC a phenderfynwyd nad oedd angen gweithredu pellach.**

13 **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU AR GYFER 2024/25.**

13.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ar gyfer 2024/25.

13.2 Nododd yr Aelodau fod yr PDC yn dribiwnlys annibynnol sy'n penderfynu ar doriadau Cod Ymddygiad honedig ac ystyriodd aelodau ganfyddiadau'r Adroddiad Blynyddol.

13.2 Nododd y Dirprwy Glerc fod PDC yn gosod targedau i benderfynu ar 75% o atgyfeiriadau o fewn 12 mis a'i fod wedi cyrraedd y targed hwnnw.

13.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Ystyried a nodi'r adroddiad; a**
**ii) Penderfynwyd nad oedd unrhyw negeseuon pwysig i'w cyfleu i Aelodau'r Awdurdod o'r achosion a benderfynwyd gan PDC.**

14 **PRESENOLDEB AELODAU YN NGHYFARFODYDD YR AWDURDOD TÂN**

14.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr ystadegau sy'n ymwneud â phresenoldeb yr Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod. Hysbyswyd y pwyllgor mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried a mynd i'r afael ag unrhyw bresenoldeb gwael yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Tân.

14.2 Nodwyd bod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu ei bod yn rhesymol disgwyl cyfradd presenoldeb mewn cyfarfodydd o 50% o leiaf gan Aelodau'r Awdurdod. Os bydd yn nodi unrhyw bresenoldeb yn gostwng o dan 50% o fewn cyfnod o dri mis, bydd y pwyllgor yn trefnu i ysgrifennu at unrhyw aelod o'r fath a'u pennaeth gwasanaethau democrataidd i godi'r mater. Nododd yr aelodau nad oedd hyn yn ofynnol gan fod presenoldeb yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig.

14.3 Cymeradwyodd yr aelodau'r tabl yn Atodiad Un, gan dynnu sylw at ei effeithiolrwydd o ran cyflwyno'r data a'r eglurder y system goleuadau traffig.

14.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) ystyried y cyfraddau presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod hwn ers mis Mawrth 2025; ac**

**ii) Os yw'r presenoldeb yn disgyn o dan 50%, gellir anfon gohebiaeth at yr awdurdodau cyfansoddol ac Aelodau'r Awdurdod. Cytunwyd nad oedd angen cyfathrebu o'r fath ar hyn o bryd.**

15 **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU**

15.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y Rhaglen Waith (FWP), ac adolygodd yr Aelodau ei gynnwys.

15.2 Penderfynodd y Pwyllgor, fel y nodwyd yn eitem 13.1, symud "Ein Hadroddiad Canfyddiadau" i fod yn eitem agenda flynyddol i'w chynnwys yng nghyfarfodydd Chwefror/Mawrth.

15.3 Nodwyd, er mwyn adlewyrchu penderfyniad y pwyllgor a wnaed o dan eitem 10.1, y gellid dileu'r cyfeiriad at y protocol cyfryngau cymdeithasol.

15.4 Cytunodd y Pwyllgor i dynnu Chwefror/Mawrth 2023 a Medi 2023 o'r Rhaglen Waith.

15.5 Mae'r eitem Telerau Penodi i'w hychwanegu at y Rhaglen Waith ar gyfer Chwefror/Mawrth 2027.

15.6 Gofynnwyd i'r Dirprwy Glerc adolygu lle mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyrraedd yn ei adolygiadau treigl o bolisïau a phrotocolau ac os oes unrhyw un ar ôl i'w adolygu, i ychwanegu'r rhain at y Rhaglen Waith.

15.7 Yr eitem Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd i'w chynnwys ar y Rhaglen Waith ar gyfer Chwefror/Mawrth 2026.

15.8 Dylid ychwanegu diweddariad yr Adolygiad o Lywodraethiant at y Rhaglen Waith ar gyfer Medi 2026.

15.9 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo cynnwys y Rhaglen Waith gyda'r newidiadau uchod.**

Diolchodd y Pwyllgor Safonau am waith caled a chefnogaeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn ystod eu cyfnod, gan nodi mai hwn oedd eu cyfarfod olaf, a dymuno'r gorau iddynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai oedd yn bresennol a dywedodd y byddai dyddiad ar gyfer cyfarfod Chwefror / Mawrth yn cael ei gadarnhau maes o law.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25 o'r gloch